



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

Trafodaethau Lles - yn ystod yr wythnos nesaf mi fydd athrawon yr ysgol yn ffonio rhai teuluoedd er mwyn gweld os oes angen unrhyw gymorth pelach arnoch gyda gweithgareddau dysgu o adref. Ein nod yw eich helpu a'ch cyfeirio at y gweithgareddau fel eich bod yn medru parhau gyda'ch dysgu. Rydym yn deall fod gwahanol deuluoedd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau cyfoethog a gwerthfawr yn y cartref felly peidiwch â phoeni os oes gennych drefniadau addas mewn lle.

Gweithio yn Teams - rwy'n ymwybodol fod nifer ohonoch o Flynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 wedi dechrau gweithio ar y tasgau sydd ar Teams o fewn Hwb ac mae'n amlwg fod y mwyafrif ohonoch yn cael hwyl arni. Rydym yn awyddus i gynyddu nifer y disgyblion sy'n defnyddio Teams er mwyn cael mynediad i dasgau, danfon a derbyn negeseuon gan yr athrawon a dychwelyd eich gwaith. Mae Teams yn galluogi ni i fod yn fwy rhngweithiol gyda chi fel teuluoedd. Yn ystod yr wythnos nesaf mi fydd yr athrawon o Flwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn rhoi rhagor o dasgau penodol yn Teams er mwyn cyfeirio rhagor ohonoch i ddechrau defnyddio'r system hon.

Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 wrth ddefnyddio Teams, cofiwch;

Posts – mae **posts** yn Teams yn gyfile i rannu negeseuon gyda phawb yn y flwyddyn yn cynnwys yr athrawon a minnau – felly byddwch yn ymwybodol y bydd y flwyddyn gyfan yn gweld eich neges.

Assignments – mae **Assignments** o fewn Teams yn ffordd i sicrhau taw dim ond chi, athrawon y flwyddyn a minnau fydd yn gweld eich gwaith. Dyma'r ffordd orau i gael mynediad at eich tasgau a'u dychwelyd i'r athrawon. Dydy'r plant a rhieni eraill ddim yn gallu gweld y gwaith rydych chi yn eu llwytho yn Assignments.

Fodd bynnag peidiwch â phoeni os nad yw'r system yn gweithio i chi, nid ydym am ychwanegu pryder i deuluoedd yn ystod y cyfnod yma.

Mae gweithgareddau'r Meithrin a'r Derbyn sydd ar wefan yr ysgol yn gweithio'n dda ac yn cael ymateb cadarnhaol gennych. Ceisiwch e-bostio cymaint o'r gweithgareddau yn ôl fel bod modd i'r athrawon weld eich ymdrechion.

Offer Cyfrifiadurol – mae'r ysgol wedi danfon rhestr o deuluoedd sydd angen cymorth o safbwyt offer cyfrifiadurol at yr Awdurdod Addysg. Mi fyddwn yn cydweithio gyda'r adrannau pwrrpasol er mwyn cael offer addas atoch cyn gynted â phosib.

Cofiwch fod dydd Gwener, Mai 8fed yn Wyl Banc Calan Mai, ceisiwch orffen unrhyw dasgau erbyn nos lau fel bod modd i chwi ymlacio dros y penwythnos hir.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddar a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch, R C Williams, Pennaeth, 01/05/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping healthy and safe and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

Wellbeing Discussions - over the next week the teachers will be contacting some families to see if you need any further help with home learning activities. We aim to help and direct you to the activities so that you can continue with your learning. We understand that different families carry out a variety of rich and valuable activities at home so don't worry if you have suitable arrangements in place.

Working in Teams - I'm aware that many of you from Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 have started working on the tasks in Teams within Hwb and it's clear that most of you are interacting effectively with this way of working. We are keen to increase the number of pupils using Teams in order to access tasks, send and receive messages from the teachers and return your work. Teams enables us to be more interactive with you as families. Over the next week the teachers from Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 will be setting more specific tasks in Teams to encourage more of you to start using this system.

Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 when using Teams remember;

Posts - posts in Teams is an opportunity to share messages with everyone in the year including the teachers and myself - so be aware that the whole year will see your message.

Assignments - Assignments within Teams is a way to ensure that only you, teachers of your year and myself will see your work. This is the best way to access your tasks and return them to the teachers. Other children and parents can't see the work you upload in Assignments.

However don't worry if the system doesn't work for you, we don't want to add worry to families during this time.

The Nursery and Reception activities on the school website work well and receive a positive response from you. Try emailing back as many of the activities as possible so the teachers can see your efforts.

Computer Equipment - the school has sent a list of families who need help with computer equipment to the Education Authority. We will work with the relevant departments to ensure you receive suitable equipment as soon as possible.

Remember that Friday, May 8th is May Day Bank Holiday, try to finish any tasks by Thursday night so you can relax over the long weekend.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Kindest regards, R C Williams, Headteacher 01/05/2020